

Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd yn trafod newid hinsawdd

Fe fydd cynrychiolaeth o Gyngor Eglwysi'r Byd yn cynnwys eglwysi sy'n aelodau a mudiadau partner yn mynychu uwchgynhadledd COP 27 yn yr Aifft er mwyn codi lleisiau, profiadau a safbwyntiau'r rheiny sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan newid hinsawdd.

Wrth adrodd yn ôl o Gymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd, fe wnes i gychwyn drwy ganolbwyntio ar yr addoliad fel sylfaen a chalon y Gymanfa: yn y Babel Weddi roedd pawb ohonom yn dod at ein gilydd i gyd-ddyheu a gweddio.

Roedd llawer o'r cyfarfod hefyd yn digwydd mewn grwpiau bach: tua 20-30 o bobl yn trafod prif faterion y Gymanfa, yn ymateb i waith y pwyllgorau canolog oedd wedi gwneud llawer o'r ymchwil a'r rhagbaratoi, a bwydo 'nôl i lywio a chyfeirio gwaith Cyngor Eglwysi'r Byd dros y cyfnod nesaf. Un o'r prif faterion dan sylw, wrth gwrs, oedd Newid Hinsawdd ac roedd y grŵp bach yr oeddwn i'n rhan ohono'n canolbwyntio ar yr agwedd honno ac ar ddŵr yn arbennig.

Yn ein cyfarfod cyntaf fe'n rhannwyd i drafod mewn grwpiau llai yn ôl daearyddiaeth y byd: y rhai o wledydd Affrica i drafod efo'i gilydd, De a Chanolbarth America mewn grŵp arall, a ninnau, bobl Ewrop, efo'n gilydd. Roeddwn i'n reit siomedig, gan fy mod wedi gobeithio cael bod mewn grŵp mwy amrywiol i glywed neges y gwledydd eraill. Ond mi wnes i ufuddhau ac ymuno efo'r criw o eglwysi lled gyfoethog y Gorllewin. Roedd ein trafodaeth yn debyg iawn i'r hyn yr oeddwn wedi ei ddisgwyl: mynegi rhwystredigaeth am ein harafwch ein hunain i newid, siarad yn ddamcaniaethol am yr hyn oedd angen ei wneud, rhannu ambell syniad ymarferol o arfer da – ond dim byd oedd, nac sydd, yn debyg o newid y byd!

Pan ddaeth pawb yn ôl at ei gilydd daeth y gwahaniaethau mawr i'r amlwg, ac mi roeddwn yn falch ein bod wedi cael ein rhannu'n ddaearyddol. Roedd profiad y rhanbarthau eraill mor wahanol i ni; er eu bod hwythau hefyd yn profi'r un rhwystredigaeth am arafwch llywodraethau i symud, roedd gwledydd Affrica'n sôn am y sychder ac anwadlwch y glaw. Soniodd un wraig o Benin am bwysigrwydd dŵr yn eu diwylliant, am yr arfer o osod powlen o ddŵr o flaen drws pob cartref fel adnodd i'w rannu ag unrhyw un sy'n sychedig wrth basio heibio. Erbyn hyn, mae dŵr wedi cael ei breifateiddio yn Benin a'r gost y tu hwnt i allu pobl i gadw'r arfer diwyllianol croesawgar hwn. Galwodd arnom i ailfeddwl am y syniad o ganiatáu i gwmnïau mawr wneud elw o adnodd naturiol mor sylfaenol (a finna'r un pryd yn teimlo'n anghyfforddus iawn o feddwl am yr ymgyrch yma i sicrhau bod Cymru'n elwa o'r dŵr sy'n cael ei gludo dros y ffin i Loegr!).

Clywsom gan bobl ynsoedd y Môr Tawel am lefelau'r môr yn codi, am gryfder aruthrol stormydd trofannol a chorwyntoedd erbyn



Llun: Gjermund Øystese/WCC

2 Medi 2022, Karlsruhe, Germany: Protest hinsawdd yn yr 11eg Cynulliad o Gyngor Eglwysi'r Byd gynhaliwyd yn Karlsruhe, yr Almaen, rhwng 31 Awst a 8 Medi, yn dilyn y thema "Cariad Crist yn Cymell y Byd i Gymod ac Undod"

hyn, a'r broblem gynyddol o ddŵr hallt yn gorlifo i'r ffynhonnau dŵr croyw, y colli tir, y cwestiwn mawr a real - 'lle awn ni?'

Roedd pobl De a Chanolbarth America yn sôn am ddylanwad a grym y cwmnïau rhyngwladol sy'n rheibio'r fforestydd, yn dadwreiddio cymunedau cynhenid gan ladd eu diwylliant a'u ffordd o fyw, yn bygwth trais ac yn peri cymaint o ddiodefaint.

Poblar reng flaen y frwydr yn wynebu'r pwerau rydym ni a'n ffordd gysurus o fyw wedi eu creu ac yn eu cynnal drwy ein dewisiadau dyddiol – a ninnau'n dal i ddamcaniaethu gan drafod y broblem fel un haniaethol a syniadol er mwyn osgoi'r gwir oblygiadau i'n ffordd o feddwl ac o fyw.

Un o'r prif negeseuon erbyn diwedd ein trafodaethau fel grŵp oedd yr angen i ni, yn arbennig yn eglwysi'r Gorllewin, i ailfeddwl ac ailddarganfod diwinyddiaeth y greadigaeth fydd yn ein galluogi fel eglwysi i ddeall o'r newydd ein perthynas â Duw'r Creawdwr.

Mae datganiad Cyngor Eglwysi'r Byd ar ddiwedd ein Cymanfa'n alwad glir arnom i ymateb yn gyflym gan droi at ffynonellau adnewyddadwy ynni ynghyd â nifer o ymatebion ymarferol posibl eraill, gyda'r rhai cyfoethocaf yn arwain ac yn sicrhau cefnogaeth ariannol i gynnal y rhai â llai o adnoddau, a digolledu'r rhai sy'n wynebu colledion a bygythiadau. Gellwch ddarllen y datganiad yma dan y teitl: [Y Blaned Fyw: Ceisio Cymdeithas Fyd-eang Gyfiawn a Chynaliadwy](#).

Un o heriau mwyaf cofiadwy Ymgyrch Newid Hinsawdd Cymorth Cristnogol dros y blynyddoedd diwethaf yma (yn fy marn i) ydi: 'Put your money where your prayers are'. Ble mae ein buddsoddiadau/pensiynau ni? Pa gwmni sy'n cyflenwi ein trydan ni (fel eglwysi neu unigolion; Ecotricity ydi un o'r rhai sy'n buddsoddi fwyaf mewn ynni adnewyddadwy yma ym Mhrydain)? Ble ydan ni'n siopa a pha mor bell mae'r bwyd rydan ni'n ei fwyta wedi dod?

Anna Jane Evans

Cymod yn achosi tramgwydd



Llun: gyda chydnabyddiaeth i'r artist, Peter 'CTO' Seaton.

Os gallwch chi weld y darlun sy'n cael ei ddangos ar y dudalen hon – yn o ddau filwr yn cofleidio, yna fe allwch weld yr hyn a achosodd dramgwydd mawr i lysgennad Wcráin a'r gymuned Wcreinaidd yn Melbourne ym mis Medi pan gafodd ei beintio ar wal wag yno.

Cymaint mae pobl wedi dioddef yn Wcráin oddi wrth effeithiau'r rhyfel – yn drawma, yn galedi, yn ddinistr ac yn gollod a galar – fel na allan nhw ddychmygu dau filwr o'r byddinoedd sy'n rhyfela yn erbyn ei gilydd yn cofleidio. Nid cofleidio y mae milwyr i fod i'w wneud, ond ennill buddugoliaethau a lladd eu gwrthwynebwy. Roedd y ddelwedd yn un broblematig gan ei bod yn awgrymu bod y ddwy ochr yn gyfartal â'i gilydd ac yn rhydd i osod eu harfau i lawr.

Achosodd cymaint o dramgwydd nes y bu'n rhaid i'r darlun gael ei guddio a'i ddileu. Mae'r artist, Peter Seaton, sy'n cael ei adnabod dan yr enw 'CTO', wedi ymddiheuro'n llaes i'r gymuned Wcreinaidd yn Melbourne gan ddweud nad oedd yn fwriad ganddo'u tramgwyddo, ond yn hytrach hybu heddwch. Er hynny, fe roddodd bob hawl i ddosbarthu'r ddelwedd mor eang â phosibl, ar fyrdau hysbysebu ac wedi ei thafunio ar adeiladau eraill etc, gyda'r mudiad heddwch World Beyond War yn mynd yn gyfrifol am hynny: <https://worldbeyondwar.org/>.

Beth fyddai ein ymateb ni i ddarlun o'r fath, tybed, pe byddem yn ein cael ein hunain yn yr un sefyllfa – wedi dioddef fel y mae trigolion Wcráin wedi ei wneud yn ystod y naw mis diwethaf neu wewyr y rhai sy'n gofod ildio i'r alwad i ymuno â'r fyddin yn Rwsia? A fyddai'r darlun yn dramgwydd i ninnau hefyd? Trafodwch! – fel y byddem yn ei ddweud yn y dosbarth ysgol Sul.

Er anodded yw dychmygu cymod rhwng y ddwy ochr, fe fydd yn raid iddi ddod i hynny rywbryd, a gorau po gyntaf y digwydd hynny. Gweddïwch felly dros y cymod hwnnw fydd yn gorfod digwydd rhwng rhai sydd wedi bod yn elynion. Gweddïwch am y gras mawr fydd ei angen i fyw eto ac i faddau yn wyneb yr elyniaeth a'r colledion a gafwyd.

Ein cofleidio â gras a chariad, cyfiawnder a heddwch a wna Duw, yn ôl Salm 85 ac emyn mawr Gwilym Hiraethog, 'Dyma gariad fel y moroedd', sy'n sôn am 'ras a chariad ... / yn ymdywallt yma 'nghyd,

/ a chyfiawnder pur a heddwch / yn cusanu euog fyd' (*Caneuon Ffydd*, rhif 205). Mae'n ein cofleidio, er mor anhyfryd ac annheilwng o ras a maddeuant yr ydym. Tra oeddem ni'n dal yn elynion i Dduw, estynnodd ei faddeuant inni yng Nghrist. Ef wnaeth y cam cyntaf tuag atom ni, yn dod atom yng Nghrist, yn dangos ei oleuni nefol inni ond yn dioddef ar y groes dan law rhai oedd yn elyniaethus iddo. 'Trwy'r groes; trwyddi hi fe laddodd yr elyniaeth,' medd y Gair wrthym (Effesiaid 2:16). Ac os yw hi'n bosibl i Dduw faddau'r fath elyniaeth drwy aberth Iesu Grist, yna mae hi'n bosibl i ninnau gael gras i garu ein gelynyon hefyd, a meddwl am y posibilrwydd o filwyr yn cofleidio'i gilydd.

Ni fyddwn yn dymuno gwneud yn fach o unrhyw drosedd sydd wedi digwydd. Mae angen cosbi troseddwy, ond eto dim ond maddeuant sy'n rhyddhau'r troseddwr a'r rhai y troseddwyd yn eu herbyn oddi wrth y cylch hwnnw o ddialledd sy'n golygu bod y dicter yn dal i gael ei ddial yn erbyn y troseddwr. Mentrwn gredu mai Iesu yn unig all ryddhau rhag y fath ddicter a dialledd, a chymodi gelynyon â'i gilydd trwy'r cymod a wnaeth ef ac a ddangosodd ef tuag at bawb ohonom ar y groes.

Beth sydd ei angen yn fwy ar ein byd heddiw na heddwch a chymod? Beth felly sy'n fwy ymarferol na'r Newyddion Da fod Duw wedi cymodi'r byd ag ef ei hun yn aberth Iesu Grist drosom? Dyma Efengyl fendigedig sy'n gallu cofleidio pawb ohonom – ymhell ac agos. Credwn ynddi ac ymrown i'w rhannu ac i weddio dros ei lledaeniad.


Fe fydd hi'n Sul y Cofio arnom y Sul hwn, a bydd llawer yn casglu ynghyd i gofio'r milwyr a gollodd eu bywydau yn rhyfeloedd yr 20fed ganrif. Gyda dyhead am wir heddwch y codwyd y cofebau hyn gan drigolion ein broydd ganrif a mwy yn ôl. Mae'r un dyhead i'w gael o hyd, a'r gwaith o wneud gwir heddwch ac o geisio cymod yn wyneb amgylchiadau rhyfelgar ein byd yn parhau bob dydd – peidiwn â blino bod ynglŷn ag ef.

'Meddylwch amdano ef, a oddefodd y fath elyniaeth ato'i hun gan bechaduriaid, rhag i chwi flino na digalonni.' (Hebreaid 12:3)



O'r byd a'r betws

Pwysigrwydd etholiad Brasil i Gymru a'r byd



Llun: Ivars Utināns ar Unsplash <https://unsplash.com/photos/wkQgb1ZZPQ>

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu'r pleidiau asgell dde mewn nifer o wledydd, gan gynnwys Israel a'r Eidal, yn denu cefnogaeth sylweddol. Collodd llywodraeth Ms Truss ymddiriedaeth ei phlaid ei hun, a gwelsom Mr Sunak yn ymdrechu i uno'i blaid er mwyn ceisio rhoi trefn ar economi gwledydd Prydain a hygredd ei blaid ei hun. Amser a ddengys pa mor llwyddiannus fydd ei dymor fel Prif Weinidog.

Ers y COP26 diwethaf bu newidiadau mewn nifer o wledydd ac ni wireddwyd yr addewidion a wnaed yn uwchgynhadledd Glasgow y llynedd. Bu'r rhyfel yn Wcráin yn ffactor sylfaenol yn y gofidiau economaidd fel nad oedd y llywodraethau am ymrwymo ymhellach i gyllido'r frwydr amgylcheddol. Mae'r tywydd eleni'n dangos na ellir osgoi'r pwnc hwn ar agenda gwleidyddol pob gwlad. Bydd sychder yn yr Affrig a glawogydd eithriadol Pacistan yn dystiolaeth o hynny.

Un wlad a safodd yn erbyn y llif i gyfeiriad y dde wledyddol oedd Brasil. Roedd hi'n seithfed yn y gynghrair economaidd ar draws y byd ychydig flynyddoedd yn ôl, ond bellach mae wedi disgyn chwe safle yn ystod teyrnasiad yr eithafwr asgell dde, y cyn-arlywydd – erbyn hyn – Bolsonaro. Roedd yn deyrn cwbl afreolus ac am gael gwared ar y goedwig enfawr ar lannau afon

Amazon er mwyn mwyngloddio ac ehangu tir i besgi gwartheg tewion.

Nid heb reswm y gelwid ef yn 'Trump y Tropics'. Ei wrthwynebydd yn yr etholiad oedd Luiz Inácio Lula Da Silva, ac o drwch blewyn Lula enillodd y bleidlais yn yr etholiad diweddar. Ac ef fydd yn gweithredu fel arlywydd nesaf y wlad. Mae eisoes wedi datgan y bydd yn anfon cynrychiolaeth sylweddol i COP27 yng ngwlad yr Aifft.

Gwelwyd y bydd Marina Silva, gwraig sy'n enedigol o ardal yr Amazon, yn arwain adran yr amgylchedd yn y cabinet newydd. Datganodd llawer o wyddonwyr y byd fod cadw'r Amazon yn 'anadlu' yn anhepgorol er mwyn i'r byd orosi ac atal yr heriau a ddaw yn sgil cynhesu byd-eang. Eisoes mae gweinidog yr amgylchedd yn Norwy wedi ymrwymo i adfywio Cronfa Achub Coedwig yr Amazon, cronfa a gollodd ei gallu i weithredu tra oedd Bolsonaro yn Arlywydd.

Ar wahân i achub coedwig yr Amazon, dau bwnc mawr arall fydd yn wynebu'r Arlywydd Lula fydd herio tldi a darparu mwy o gartrefi i drigolion y wlad. Prin fod Bolsonaro wedi gwneud dim i ddarparu gwell tai i drigolion y *favelas* ar gyrion y dinasoedd. Roedd yn hawdd herio'i flaenoriaethau a holi pam y bu iddo wario

cymaint i ddenu'r Gemau Olympaidd i'w wlad yn 2016 heb wneud dim i daclo tldi yn gyffredinol na chynnig tai gweddus o gwmpas dinasoedd fel Rio de Janeiro, lle cynhaliwyd y gemau.

Hanner can mlynedd yn ôl gwelodd Brasil gynydd sylweddol yn nifer y Cristnogion yn y wlad. Heddiw, ceir 123 miliwn o Gristnogion yn y wlad. Yn wir, hi yw'r ail wlad yn y byd, yn dilyn yr Unol Daleithiau, o ran nifer y rhai sy'n eu hystyried eu hunain yn Gristnogion. Mae tua hanner y rhain yn Gatholigion, tra mae un o bob pump yn Brotestaniaid.

Os felly, beth yw dylanwad y dystiolaeth Gristnogol ar werthoedd a gweledigaeth y wlad? Neu a fyddai'n wir dweud bod y tyndra rhwng crefydd a gwleidyddiaeth yn dangos bod pobl yn ceisio'u cadw ar wahân i'w gilydd?

Mae perthynas crefydd a gwleidyddiaeth yn bwnc trafod poblogaidd, a bydd olrhain datblygiadau'r pum mlynedd nesaf yn galw arnom i gadw llygaid manwl ar werthoedd cyfiawnder a thrugaredd mewn gwlad sy'n allweddol i warchod yr amgylchedd ar draws y byd.

Denzil John

Sul Diogelu

Bydd Sul Diogelu yn cael ei gynnal eleni ar **20 Tachwedd 2022** (sy'n cyd-fynd â'r Wythnos Genedlaethol Diogelu Oedolion, 21-27 Tachwedd). Os nad yw'r dyddiad hwn yn gyfleus, beth am ddewis dydd Sul arall neu ddefnyddio rhan o'ch gwasanaeth arferol i godi ymwybyddiaeth am ddiogelu yn eich eglwys?

Cymerodd dros ddwy fil o eglwysi ar draws Prydain ran llynedd, ac rydym yn gobeithio y bydd yna ragor eleni.

Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol yr ydym fel Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb y Bedyddwyr ac Undeb yr Annibynwyr yn perthyn iddo, yn eich annog i dynnu sylw at bwysigrwydd amddiffyn pobl fregus fel rhan o **Sul Diogelu**, sef ymgyrch a gychwynnwyd gan yr elusen diogelu Gristnogol [Thirtyone:eight](#)

Rydym yn cynnwys trefn y gwasanaeth ar gyfer eich defnydd fel cynulleidfaoedd. Bydd angen cysylltu'n uniongyrchol â'r panel (post@panel.cymru) er mwyn derbyn y ddolen i lawrlwytho'r ffilm a baratowyd.

Yr Arglwydd yw fy mugail Gwasanaeth ar gyfer Sul Diogelu 2022

CROESO

Arweinydd:

Croeso i chi i gyd i'n gwasanaeth Sul Diogelu heddiw pryd y byddwn yn dilyn y thema 'Gofal'. Ry'n ni'n perthyn i gynulleidfa, yn perthyn i gymuned fel teulu ac fel unrhyw deulu arall, ry'n ni'n edrych ar ôl ein gilydd ac yn cynnal ein gilydd hefyd. Dyna pam mae sicrhau gofalu am, a diogelu ein haelodau yn hanfodol – o'r ieuengaf i'r hynaf.

Yn ein gwasanaeth heddiw, byddwn yn manteisio ar y cyfle i ddiolch i rai sy'n gofalu amdanom ac yn gweithio gyda'n plant a'n bobl fregus yn ein heglwysi a'n cymunedau. Rydym hefyd eisiau dal yn ein calonnau'r rhai sydd wedi eu brifo neu eu niweidio gan ein gweithredoedd neu'n diffyg gweithredu.

GALWAD I ADDOLI

Dewch i ni addoli Duw, ein Tad gofalus.

Darlflen Salm 34

EMYN 1

82 'Molwch Arglwydd nef y nefoedd' (*Caneuon Ffydd*)

102 'Fy enaid, bendithia yr Arglwydd' (*Caneuon Ffydd*)

'Tyrd, dyma dy gyfle i foli' (Brian Doerskson)

'Nerth a gawn' (Chris Tomlin)

GWEDDI

Arglwydd da, diolch i Ti am dy holl ofal drosom ac am yr holl fendithion yr ydym yn eu derbyn gennynt.

Diolch i Ti am dy ffyddlondeb a dy gariad tuag atom.

Rwy'ti'n gwybod am bob anadl a gymerwn, am bob curiad o'n calon.

Rwy'ti'n gwybod am ein holl obeithion a'n dyheadau.

Rwy'ti'n gwybod am bob un o'n meddyliau. 'Ti'n gwybod pryd dw i'n eistedd ac yn codi; ti'n gwybod beth sydd ar fy meddwl i o bell.

'Ti'n cadw golwg arna i yn teithio ac yn gorffwys; yn wir, Ti'n gwybod am bopeth dw i'n wneud.

'Ti'n gwybod beth dw i'n mynd i'w ddweud cyn i mi agor fy ngheg, ARGLWYDD.

Rwy'ti yna o'm blaen i a'r tu ôl i mi; mae dy law di arna i i'm hamddiffyn.

'Ti'n gwybod popeth amdana i!' Ac rwy'ti'n dal i ngharu.

Diolch i Ti, Arglwydd. Amen

DARLLENIAD

Arweinydd: Mae un o'r darluniau harddaf o ofal Duw drosom yn gyfarwydd iawn i ni. Dewch i ni **gyd-ddarllen Salm 23** – rhif 965 yn *Caneuon Ffydd*.

Arweinydd: Dyma sut mae'r geiriau yn cael eu cyflwyno yn Beibl.net:

1“Yr ARGLWYDD ydy fy mugail i; mae gen i bopeth dw i angen.”

Dyma'r darlun o'r bugail perffaith, sydd mor ofalus o'i braidd. Dyma ofal Duw am ein holl anghenion.

Y ddau beth pennaf mae dafad ei angen ydi dŵr a phorfa dda, ac yn y Salm cawn glywed am borfa 'fras' neu 'hyfryd' a dŵr tawel.

Caewch eich llygaid am funud a cheisiwch ddychmygu bod mewn lle mor braf. Mewn lle nad oes angen dim arnoch.

EMYN 2

666 Bugail Israel sydd ofalus (*Caneuon Ffydd*)

FFILM DIOGELU

Arweinydd: Gofynnodd un o athrawon y gyfraith i Iesu, "Athro, pa orchymyn yw'r mwyaf yn y Gyfraith?" Dyma oedd ateb Iesu iddo: " 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl.' 38 Dyma'r gorchymyn cyntaf a'r pwysicaf. 39 Ac y mae'r ail yn debyg iddo: 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.'" (Mathew 22:36-39)

Yn y ffilm fer hon gan y Panel Diogelu Cydenwadol, cawn glywed am ein cyfrifoldeb i ofalu am, a diogelu eraill, yn arbennig am rai sy'n fregus – ein cymdogion, yn blant ac oedolion. *Dangos y ffilm*

NEGES FER

Arweinydd: Mae gofal bugail am ei ddefaid yn waith bob dydd o'r flwyddyn. Cawn ein hatgoffa o Salm arall am ofal a chymorth Duw, cymorth sydd ar gael bob dydd a thrwy'r nos:

Darlflen Salm 121 ad 3-8

Arweinydd

Nid yn unig y mae defaid angen dŵr a bwyd, ond maen nhw hefyd angen eu cadw'n ddiogel. Cawn y darlun clir yn Salm 23 o'r bugail yn arwain ei ddefaid trwy ddyffryn peryglus. Mae'r defaid yn ddiogel oherwydd



Llun: unsplash.com/photos/ra9Tp87mSSy

'gerllaw y dyfroedd tawel...'

bod y bugail yn eu hamddiffyn yr holl ffordd, ac wedi dod trwy'r profiad annifyr ac anodd dŏnt i fan i'w hadnewyddu, lle mae gwledd wedi ei pharatoi.

Dyma ofal Duw drosom. Ac fe yrrodd Iesu ei Fab i fod yn Fugail Da i ni: "Myfi yw'r bugail da. Y mae'r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid." (Ioan 10:11)

Fel y clywsom yn yr adnodau o Mathew, y gorchymyn gawsom ni gan y Bugail Da oedd i ni garu'n cymydog fel ni ein hunain. Fel bodau dynol, mae ein greddf i oresgyn yn mynnu ein bod yn diogelu ein hunain, ond yma cawn ein hatgoffa ein bod i ddangos yr un gofal tuag at eraill – tuag at ein cymydog. Ac, yn siŵr, mae gofal wedi bod yn nodwedd o Eglwys Iesu Grist o'r cychwyn cyntaf.

Diolchwn am bob gofal a chariad a ddangosir yn ein capel, yn y pethau mawr a'r pethau bach. Yn y chweched bennod o lyfr yr Actau, clywn am yr angen i benodi rhai i ofalu am y gweddwon 'a dyma ddewis Steffan, gŵr llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân, a Philip a Prochorus a Nicanor a Timon a Parmenas a Nicolaus, proselyt Antiochia. Gosodasant y rhain gerbron yr apostolion, ac wedi gweddio rhoesant hwythau eu dwylo arnynt.' (Actau 6: 5,6)

Cawn gyfle heddiw i ddiolch am y bobl rheini sydd yn gweithio'n dawel i osod pethau yn eu lle fel bod gennynt le diogel i gyfarfod ynddo, ac am y rhai sydd yn trefnu gofal addas am ein plant, ein hieuenctid a'r bregus yn ein plith.

GWEDDI:

Diolch i Ti, Arglwydd am bobl sydd yn gofalu am gymaint o bethau yn dawel bach i wneud yn siŵr ein bod yn gallu cyfarfod yma heddiw i dy addoli Di gyda'n gilydd yn ddiogel. Diolch i Ti am arweinwyr y capel hwn sy'n gwneud cymaint. Diolch i Ti am y gofal a'r caredigrwydd a ddangosir ymysg aelodau'r capel, a thuag at y gymdeithas o'n cwmpas. Diolch i Ti am y rhai sy'n gofalu

[\(parhad ar tudalen 5\)](#)

Sul Diogelu

(parhad o dudalen 5)

ac yn gweithio gyda phlant ac ieuencid, ac am y rhai sy'n gofalu am ddiogelwch yr adeilad. Helpa ni i adlewyrchu'r gofal a'r cariad sydd gennyt Ti tuag atom. Arglwydd, gwyddom fod amddiffyn y rhai sy'n fregus wrth wraidd y neges Gristnogol. Heddiw, rydym yn codi'r rhai sy'n fregus i ti, y rai sydd angen eu hamddiffyn a'r rhai sy'n ofnus, sy wedi cael eu clwyfo a'u brifo. Diogela hwy, cysura hwy a dyro dy heddynt. AMEN

EMYN 3:

483 Mi glywaf dyner lais (*Caneuon Ffydd*)
375 O tyred i'n gwaredu, Iesu da (*Caneuon Ffydd*)
Fy Iesu, ngwaredwr (Darlene Zschech, cyf. Arfon Jones)

EIN GOFAL NI

Arweinydd: Mae gofalu, felly, yn gyfrifoldeb i bob un ohonom – 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Pan welwn ni rywun yn fregus, yn ddi-amddiffyn, mewn gwendid, gadewch i ni roi ein hunain yn eu hesgidiau nhw a meddwl sut y buasem ni'n teimlo. Tybed sut y buasem ni eisiau i rywun ddangos gofal tuag atom ni petai ni yn eu sefyllfa hwy?

Meddai Iesu yn Mathew: "Yn wir, rwy'n dweud wrthy, yn gymaint ag y gwnaethoch i un o'r lleiaf o'r rhain, fy



ngymrodyr, i mi y gwnaethoch." (Mathew 25: 40)

GWEDDI:

Mae'n ddrwg gennym nad ydyn ni bob amser yn dangos gofal a chariad fel y dylem, nad ydyn ni bob amser yn sylwi ar anghenion pobl o'n cwmpas. Plis helpa ni i fod yn gywir yn ein gofal. Plis helpa ni i wneud popeth sy'n ofynnol i wneud yn siŵr fod ein capel yn lle diogel a chroesawus ym mhob ffordd i bawb, ac yn arbennig i'r rhai sy'n fregus mewn unrhyw ffordd. Os oes yna lefydd lle mae ein gofal yn wan, dangos i ni, a rho'r nerth a'r brwdfrydedd i ni wella'r sefyllfa.

Gweddiwn dros y rhai yn ein cymdeithas sydd wedi dioddef mewn unrhyw ffordd oherwydd diffyg gofal. Gweddiwn dros yr henoed, dros blant ac ieuencid a thros rai sydd mewn angen. Gweddiwn dros y rhai sydd wedi eu hamharchu a'u cam-drin. Gofynnwn i Ti fod yn agos at y rhai sydd angen eu hamddiffyn a'r rhai sy'n ofnus, sy wedi cael eu clwyfo a'u brifo. Fugail Da, diogela hwy, cysura hwy a dyro dy heddynt. AMEN.

EMYN 4: Bugail mwyn y Plant a'r Bregus (Tôn: Bryntirion, *Caneuon Ffydd*, 263)

Bugail mwyn y plant a'r bregus,
Meddyg doeth yr hen a'r gwan,
amddiffynnwr y dioddefwr
a'r diniwed ym mhob man:
Arglwydd Iesu,
Gad i'n weithio gyda thi.

Yno'n gefn i rai mewn gofid,
yno'n glust i wrando cwyn,
yno'n gaer i'r di-amddiffyn
yno'i weithio er eu mwyn.

Arglwydd Iesu
Gad i'n weithio gyda thi.

Dyro gariad a doethineb
ym mhob sgwrs a phob ymddwyn,
parch at bob un person gwerthfawr
buost farw er eu mwyn:

Arglwydd Iesu
Gad i'n weithio gyda thi

CASI JONES

DIWEDDGLLO:

Arweinydd: Diolch am ymuno gyda ni heddiw yn ein Gwasanaeth Sul Diogelu. Mae'n dda treulio amser gyda'n gilydd yn meddwl a myfyrio ar y pwnc pwysig hwn. Mae diogelu yn rhywbeth na ddylwn ei anwybyddu fel eglwys ac rydym yn ddiolchgar nad oes rhaid i ni wneud hyn ar ein pennau ein hunain a bod y Panel Diogelu Cydenwadol yno i'n helpu a'n cefnogi gydag unrhyw faterion diogelu a hyfforddiant. Wrth i ni gau ein Gwasanaeth Diogelu, rydym am gymryd y cyfle hwn i godi ymwybyddiaeth o'r panel a'r gwasanaeth a'r gefnogaeth y mae'n ei gynnig. Gall unrhyw un, aelodau ac arweinwyr gysylltu â'r panel a gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt ar ein poster diogelu neu ar [wefan y panel](#).

Gadewch i ni ddod â'n gwasanaeth i ben heddiw drwy ddweud geiriau'r Gras wrth ein gilydd

Y FENDITH: Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glan fyddo gyda ni oll. Amen.

Paratowyd gan Nia Williams, Pwllheli

Ewch i wefan [panel.cymru/cy/sul-diogelu](#) er mwyn canfod nodiadau a gwybodaeth bellach am y gwasanaeth ac am waith y Panel Diogelu Cydenwadol.

Diolchgarwch Noddfa, Llambled

Braf oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd i Noddfa yn ddiweddar i wasanaeth diolchgarwch yr ysgol Sul wedi ei lunio gan Janet. Cymerwyd rhan gan y plant, y bobl ifanc a'r rhieni mewn pennill a chàn – a phawb o'r lleiaf i'r hynaf yn cyflawni eu gwaith yn raenus. Diolchwyd i Dduw am ei holl fendithion gan gofio hefyd am y rhai sy'n dioddef. Cyhoeddwyd yr emynau gan Tudur, Cai, Rhun a Cerys Angharad, ac offrymwyd gweddi gan Gwenllian. Mwynhawyd unawdau gan Helen, Hari, Trystan Bryn a Lowri Elen ac adroddiadau gan Esther, Lynwen a Llew. Y llefarywyr oedd Siân J, Llinos, Siân R.J a Geinor Medi. Cyflwynwyd sgwrs gan Nia Wyn, Trystan Wyn ac Ifan yn llawn hiwmor ond yn cynnwys sylwedd hefyd.

Bu'r plant yn canolbwyntio ar ran bwysig o'r corff sef ein dwylo. Ar ôl canu'r emyn 'Dwylo ffeind oedd dwylo Iesu' bu'r plant yn diolch am ddwylo ffeind pobol eraill, yn cynnwys y ffermwr, y siopwr, y nyrs, eu rhieni, y milfeddyg ac yn olaf, ond nid y lleiaf, dwylo ein Gweinidog sydd yn agor y Beibl a'n dysgu am air Duw.

Hefyd darllenwyd adnodau o'r Beibl sy'n sôn am ddwylo Iesu yn gweddi, yn gwella'r cleifion ac yn bendithio plant. Roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando ar y rhai ieuengaf yn canu, sef Llew, Nansi, Erin a Siwan. I orffen, ymunodd y plant i gyd i ganu emyn hwyliog gyda'r offerynnau taro'n ychwanegu at eu datganiad. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Ann a bu Llinos a Janet yn cyfeilio i'r plant a'r bobl ifanc.



Llun: Plant ac ieuencid Noddfa gyda'u rhoddion i'r Banc Bwyd yn eu gwasanaeth diolchgarwch

Diolchodd ein Gweinidog, y Parchedig Densil Morgan, i'r plant a'r bobl ifanc am ein harwain, ein goleuo a'n codi mewn cyfnod anodd. Talodd deyrnged i Janet am ei gwaith ac am ei gallu i ddenu'r bobl ifanc i gymryd rhan a diolchodd hefyd i'r rhieni am eu cyfraniad hwythau.

Datganodd Janet ei gwerthfawrogiad hefyd i bawb oedd wedi bod yn rhan o'r oedfa, i'r rhieni am eu cydweithrediad a'u rhoddion i'r Banc Bwyd a hefyd i Alun, Roy a John Elfyn am baratoi'r llwyfan i'r plant.

Wrth droi tuag adre roedd pawb yn uchel eu canmoliaeth o'r oedfa ac yn cytuno'u bod wedi cael bendith a mwynhad wrth gydaddoli â'r plant a'r bobl ifanc.

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

7 Cychwyn y daith

Darlenn: Actau 7:1-6

Fel y nodais rai wythnosau yn ôl, cyn inni ddod at hanes galw Abraham ym mhennod 12, mae'n amlwg fod y teulu eisoes wedi cychwyn ar y daith yr oedd Duw wedi bwriadu iddynt ei chymryd. Mae adnodau olaf pennod 11 yn priodoli cychwyn y daith i Tera, tad Abraham, nid yn gymaint gan mai ef gafodd y galwad, ond byddai'n amhriodol cyfeirio at alwad Abraham fel mab o fewn cymdeithas batriarchaidd. Mae'r Beibl felly'n nodi mai Tera gymerodd ei fab a'i wŷr i gychwyn o Ur, er mai galwad i Abraham oedd hwn, fel y gwelwch o'r adnodau yn Llyfr yr Actau.

Fel yn achos pob taith, er mwyn cyrraedd rhywle, rhaid ichi adael rhywle. Wrth i Abraham a'i deulu adael Ur, cawn thema fydd yn gyson drwy'r Beibl, thema sy'n pwysleisio'r ffaith fod pobl yr Arglwydd yn bobl ar daith, ar daith o le arbennig i le arbennig. Yn achos Abraham a'i deulu, roeddent i adael Ur y Caldeaid, a symud i Ganaan. Nid yw pawb yn gytûn ai lle penodol oedd yr Ur hwn, gan mai ystyr y gair yw 'tir', ond yn sicr gellir lleoli'r ardal - gwlad y Caldeaid. Os oedd yn ddinas, ceir awgrym mai dinas ar lan afon Ewfrates oedd hi, tua 150 o filltiroedd i'r gogledd o Gwlff Persia. Beth bynnag am yr union le, roedd Caldea yn yr ardal a elwir y Cilgant Ffrwythlon, yn ymestyn o Gwlff Persia i'r gogledd-orllewin i ardal dinas Babilon. Bu'r Caldeaid yn rheoli Babilon am gyfnod, ond nid yw union ffiniau eu tiriogaeth yn glir.

Pwynt y stori yw bod Duw wedi galw Abraham allan o ardal o wareiddiad a ffyniant. Roedd Ur y Caldeaid yn lle oedd â digonedd o ddŵr a thir pori, ac roedd yn ardal oedd wedi ei chyfoethogi gan batrymau masnach y cyfnod. Mewn

geiriau eraill, dyma oedd "y lle" i fod. Galwodd Duw ef o'r lle cyffyrddus hwn i le oedd yn ddiethr iddo. Mae'n debyg y byddai Abraham wedi cael amser caled yn dychmygu unrhyw le fyddai'n well na'r man lle yr oedd eisoes. Ond credodd Abraham addewidion Duw, ac fe gyfrifodd Duw y ffydd honno iddo fel cyfiawnder (Genesis 15:6; Rhufeiniaid 4:3). Mae hanes yn llawn o arloeswyr sydd wedi gadael gwarediddiad i geisio bywyd gwell, ond fel arfer mae'r bobl hyn wedi bod mewn sefyllfa enbyd, yn ysu am rywbeth gwell. Gadawsant sefyllfa ddrwg gan wybod, er y byddai peryglon a chaledi, y gallent gael rhywbeth gwell yn y diwedd. Mae'n ymddangos bod sefyllfa Abraham i'r gwrthwyneb. Roedd yn byw mewn gwarediddiad llewyrchus, ac mae'n debygol fod cryn lewyrch ar fywyd ei deulu. Cerddodd i ffwrdd oddi wrth y cyfan, gan ymddiried yn syml fod Duw yn mynd i roi rhywbeth gwell iddo, er y byddai'n ddiethryn mewn gwlad ddiethr ac na fyddai'n gweld cyflawni addewidion Duw yn ei oes.

Peth arall sy'n cael ei bwysleisio yn hanes dechrau'r daith yw fod ei wraig Sarai (Sarah yn ddiweddarach), 'yn ddi-blant, heb eni plentyn'. Fel y nodais yr wythnos diwethaf, mae'r teulu yn ganolog i fywyd y patriarchiaid. Nid Sarah fyddai'r gyntaf yn y Beibl i weld Duw yn bendithio gwraig oedd heb eni, neu wedi methu geni, plant. Wedi dweud hynny, mae Abraham, fel eraill ar ei ôl, yn cael trafferth i greu'r addewid, ac yn mynd i helynt yn ceisio atebion eu hunain i'r hyn y mae Duw yn ei addo. Mae galwad ar i Abraham adael ei wlad a meddiannu gwlad newydd ag addewidion arbennig, er bod y posibiladau o weld yr addewidion hynny'n cael eu gwireddu i bob golwg yn amhosibl, ac mae Abraham yn ceisio 'helpu' i wireddu'r addewid.

Ond, mae'r ddau beth yma - gadael gwlad lewyrchus a chyffyrddus a gadael ar bwys addewid o etifeddiaeth ac enw - yn cyfuno i osod cywair sydd eto'n llinyn arian drwy'r Beibl. Mae pobl Dduw i fynd gyda golwg ar allu goruwchnaturiol Duw yn hytrach nag amgylchiadau naturiol ffafriol. Mae Abraham yn codi a mynd ar alwad Duw, ufudd-dod ffydd sy'n cael ei gymeradwyo, ond, fel yn hanes holl pobl Dduw ym mhob cenedlaeth, gydag ufudd-dod mewn un cyfeiriad, yn aml ceir anufudd-dod yn gymysg. Dyna yw byw - mae yna greadigaeth newydd yng Nghrist sy'n credu, tra bo'r hen fi yn dal i lercian yn y cefndir, eisiau cael ei le yn ôl.

O ran cychwyn y daith felly, rydym yn rhannu yr un galwad ag Abraham. Mae'n alwad i adael, gadael lle cyfyng ambell waith, ond gall olygu gadael lle cyffyrddus hefyd. Ceir cyfeiriad at Moses, wedi iddo dyfu i fyny, yn gwrthod cael ei alw yn fab i ferch Pharo, 'gan ddewis goddef adfyd gyda phobl Dduw yn hytrach na chael mwynhad pechod dros dro, a chan ystyried gwaradwydd yr Eneiniog yn gyfoeth mwy na thrysorau'r Aifft, oherwydd yr oedd ei olwg ar y wob'r' (Hebreaid 11:24-6).

1. Yn Efengyl Mathew 4:18-25 ceir hanes pobl yn cael eu galw i ddechrau'r daith gyda Iesu. Ble cychwynnodd y daith i chi?
2. Gwelwn Abraham yn gadael lle cyfforddus i fynd i le anghyfarwydd. Beth fu raid i chi ei adael, a beth sydd angen i chi adael ar hyn o bryd ar y daith yma?
3. Beth sy'n ei gwneud yn anodd i chi ymddiried yn addewidion Duw? Oes yna bethau yr ydych chi wedi eu gwneud i geisio torri corneli, neu sylweddoli rhywbeth priodol mewn ffordd amhriodol?

S4C

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 13 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp

Catrin Hughes yn cyflwyno detholiad o emynau o Gymanfa Gorllewin Myrddin a gynhaliwyd yng Nghapel Hermon, Cynwyl Elfed

Sul, 13 Tachwedd, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Ieuan Elfryn Jones, Caergybi

BBC radio cymru

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 13 Tachwedd am 7.30yh

Ar Sul y Cofio byddwn yn cofio'r rhai a gollodd eu bywydau yn 1982, yn Rhyfel y Falklands. Eilir Owen Griffiths fydd yn arwain y canu mawl a chawn berfformiad arbennig gan Catrin Finch a Rhys Taylor o gerddoriaeth dangnefeddus Handel

Diwedd cyfnod yng Ngholeg Trefeca

Heb os, un o drysorau enwad y Methodistiaid yng Nghymru, ac yn wir un o'n trysorau fel cenedl yw safle Coleg Trefeca. Dyma grud yr unig enwad sydd â'i wreiddiau yn gyfan gwbl yng Nghymru, a man cychwyn dylanwad fyddai'n chwarae rhan yn y gwaith o arwain at genedl fyddai'n cael ei hadnabod fel gwlad y diwygiadau, a gwlad anghydfurfiol. Y mae ei dylanwad yn ddiweddar wedi bod yn ffurfiannol yn hanes llawer wrth i weledigaeth y diweddar Barchedig John Tudor a Dr Nerys Tudor gael ei gwireddu i sicrhau canolfan oedd wedi ei neilltuo i hyfforddi lleygwyr yn benodol, ac yn ddiweddarach, sicrhau hyfforddiant ehangach. Ar yr un pryd, datblygodd y safle yn un rhagorol ar gyfer cyrsiau amrywiol, ond yn fwy na dim ar gyfer sicrhau lle oencil. Yn ystod y misoedd diwethaf bu'n fanencil i ffoaduriaid o Wcráin, mewn cydweithrediad â Chyngor Powys a Llywodraeth Cymru.

Yn y gwaith hwn, yr oedd y Coleg yn ffodus fod ganddynt dîm yn y ganolfan oedd yn brofiadol ac yn abl i ymgymryd â'r gwaith o gynnis llety a chroeso cynnes i'r ffoaduriaid hyn. Yr ydym yn ddyledus iawn i'r Rheolydd, Mair Jones, ac i'r Dirprwy Reolydd, Richard Castle, fel ag yr ydym i Linda a Donna, am eu gwaith diflino dros y misoedd diwethaf yn arbennig. Ond, gyda diwedd hydref, ac yn unol â penderfyniad y Cyfundeb y mae'r Coleg yn wynebu ar ddyfodol newydd a chyfraniad newydd i fywyd yr enwad a hefyd, gobeithio, i fywyd yr eglwys yn ehangach. Gweddiwn ar i Dduw ein tywys yn ddiogel i'r dyfodol hwnnw, wrth inni ddiogel i'r etifeddiaeth sydd yno, dathlu ein gorffennol a symud yn hyderus i sicrhau gweinigogaeth newydd i'r dyfodol.

Wrth gau'r bennod hon, yr ydym am gydnabod yn arbennig Mair a Richard am eu gwaith dros y blynyddoedd. Daeth Mair i weithio yno 25 mlynedd yn ôl, yn dilyn cael ei hapwyntio'n Warden Cynorthwyol. Yn wreiddiol o'r Trallwng, cafodd ei magu ar aelwyd oedd yn gyfuriog o ddylanwadau gorau ein gorffennol. Yr oedd ei rhieni yn ddau oedd yn gynnes iawn at yr efengyl, yn ffyddlon at yr achos, ac wedi magu eu pedwar o blant yn swm y diddordeb hwnnw. Wedi derbyn diploma yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth, lle'r oedd ei brawd, y diweddar Barchedig Huw Jones, a'i wraig yntau, y Parchedig Janice Jones, wedi eu hyfforddi, aeth Mair i Ddolgellau i weithio yng Ngholeg Meirionydd cyn cael ei hapwyntio fel cydlynnydd gwirfoddolwyr i CAIS, ac fel Rheolwr y Ganolfan yn y Rhyl. Tystia yn aml i ddylanwad y Parch. Aneurin Owen a'r Dr Dafydd Alun Jones yn ystod y cyfnod hwn. Wedi cyrraedd Trefeca, bu'n gofalu am y Ganolfan am gyfnod byr wedi



yamadawiad y Parch. Gethin Rhys a Dr Fiona Liddell yn 2002, cyn cael ei hapwyntio'n Rheolydd yn 2004 wedi cyfnod y Parch. Trefor a Mrs Miriam Lewis.

Cyrhaeddodd Richard, gyda'i wraig, Madeleine, y Ganolfan yn 2008. Mae Richard yn fab i'r diweddar Richard Castle a'i wraig, Sonia, dau oedd yn aelodau ffyddlon ac yn arweinwyr yn ein heglwys yn y Trinitï, Pen-coed. Magwyd Richard o dan weinigogaeth y Parchedigion Vivian Morgan a Hmar Sangkhuma. Wedi ymadael â'r ysgol, astudiodd Hanes Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, a'i diwtor yno oedd y diweddar Athro J. Gwynfor Jones, dyn a adawodd argraff ddofn arno. Enillodd radd MA mewn Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Dewi Sant, Llambod, a threulio rhai blynyddoedd yn gweithio i wasanaeth presgripsiwn nifer o feddygfeydd yng Nghwm Rhondda, cyn dod atom.

Wedi cyrraedd, bu i Mair, fel Richard yn ddiweddarach, ymroi'n llwyr i fywyd y Ganolfan. Mae'r ddau'n ymhyfrydu yn ei hanes, a'r ddau fel ei gilydd wedi cael mwynhad o fod yno, o gael cyfarfod ag amrywiaeth eang o wahanol bobl ac o ddarparu croeso a llety graenus i bob ymwelydd. Yn sicr, dyma un o nodweddion mwyaf amlwg unrhyw ymweliad â Threfeca dros y blynyddoedd. Roedd y lle'n cael ei gadw fel cartref preifat, bron, nid mewn unrhyw ffordd oedd yn cau pobl allan ond yn hytrach o ran y balchder yr oedd y ddau, gyda Linda a Donna, yn edrych ar ôl y safle. Mae'n debyg mai'r sylw sy'n crynhoi gofal Mair yw'r ffaith i un o'r ffoaduriaid gyfeirio ati fel 'mam pawb'. O ran Richard, nodweddyd ei dymor yntau â gofal diffwdan, tawel a threfnus. Wrth gwrs, nid rhoi yn unig fu eu profiad; maent yn medru tystio iddynt dderbyn hefyd, yn arbennig derbyn bendith o gael ymwelwyr o Gymru ac o eglwysi ar draws y byd a wnaeth gyfoethogi eu cerddeddiad ysbrydol.

Drwy'r cyfnodau melys, fel y cyfnodau mwy anodd, mae'r ddau wedi bod yn ffyddlon iawn i'r Ganolfan, ac wrth i'w tymor hwythau ddirwyn i ben yn awr, dymunwn Dduw yn rhwydd iddynt. Wrth edrych ymlaen at gyffro a phosibiliadau'r dyfodol, yr ydym yn gwneud hynny gan ddiolch i'r ddau yma'n arbennig am redeg eu rhan hwy o'r ras. Mae'n siŵr fod trosglwyddo'r baton yn chwithig, ond rwyf yn gwybod y byddant hwy, fel ninnau, yn gwneud hynny gan edrych ymlaen at weld safle Trefeca yn parhau i fod yn ganolfan fydd yn cefnogi a hyrwyddo ein tystiolaeth Gristnogol i'r dyfodol.

Meirion Morris

Symposiwm rhithiol i nodi 400 mlwyddiant geni Stephen Hughes ('Apostol Sir Gaerfyrddin')

Cyfes o ddarlithoedd yn trafod addysgu'r werin yn y cyfnod modern cynnar gan ganolbwyntio ar addysgwyr o sir Gaerfyrddin. Trefnir gan Gyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

9 Tachwedd am 5 o'r gloch
Yr Athro Geraint H. Jenkins
'Griffith Jones, Llanddowror, addysgwyr a gyflawnodd wyrthiau'

Pan gynhaliwyd pól piniwn rai blynyddoedd yn ôl yn gofyn i'r cyhoedd enwebu arwyr Cymru, nid ymddangosodd enw Griffith Jones, Llanddowror, ymhlith y can enw cyntaf. Fe'i bwriwyd o'r neilltu gan enwogion fel Tommy Cooper, Phil Campbell a Cerys Matthews, er bod ei gamp fel addysgwyr o Gymro ac fel diwygiwr crefyddol yn gwbl eithriadol. Mae'n amlwg bod angen mwy o PR arno a dyna a geir yn y sgwrs hon. Archebu tocyn:

<https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/t-avaoorm>

16 Tachwedd am 5 o'r gloch
Dr Eryn M. White
'Madam Bevan ac Addysg y Werin'

Bridget Bevan (1698–1779) a fu'n gyfrifol am gynnal yr ysgolion cylchynol yng Nghymru dros gyfnod o ddeunaw mlynedd o 1761 tan ei marwolaeth ym 1779. Yn y ddarlith hon, byddwn yn ystyried ei chymhellion a'i chyfraniad at yr ymgyrchoedd mawr i geisio addysgu pobl Cymru.

Archebu tocyn:

<https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/t-xmdjjpp>

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Y pryd hwnnw ...

Darllen – Eseia 12: ‘Caneuon Moliant’

Gwedd

O Arglwydd, llanwa'n calonnau heddiw â chaneuon moliant, a rhyddha'n gwefusau i gyhoeddi mai ti yw ein nerth a'n cân. Ti, Sanct Israel, a ddaethost atom yn dy Fab i drigo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd, tyrd eto i'n plith drwy dy Ysbryd Glân. Caniatâ i ninnau drwy dy ras fedru 'yfed' o ffynhonnau iachusol ein hiachawdwriaeth. Dirion iachawdwr, yr ydym yn hyderus ynot ac yn dy air. Boed felly i'n llawenydd fod ynot wrth i ni yfed o ffynhonnau gloywon ddyfroedd byw dy drugaredd. Arglwydd, addolwn di. Amen.

Emyn 83: ‘F’enaïd, mola Dduw’ r gogoniant’

Darllen – Eseia 65:17–25 ‘Nefoedd Newydd a Daear Newydd’

Does dim angen i ni fod yn broffwydi neu'n chwyldrowyr cymdeithasol i sylweddoli nad yw'r byd fel y mae yr hyn ddylai fod. Mae hunanoldeb yn rhemp, materoliaeth yn tagu bywyd, pobl yn cystadlu â'i gilydd am adnoddau prin, anghyfiawnder yn llesteirio, a phobl yn dioddef salwch, heintiau a newyn ar bob cyfandir.

Fe allem ymateb i'r hyn a welwn drwy geisio diogelu ein hunain y tu ôl i furiau ffug ein cyfoeth ansicr, ond heb 'gymdeithas' iach, cestyll tywod yw ein diogelwch brau.

Nid fy niogelwch i a'm teulu agos yw diffiniad na ffiniau 'cymdeithas'.

Mae gwreiddiau cadarn gwerthoedd gwareiddiad ffyniannus yn ymestyn y tu hwnt i ddyheadau hunanol ein calonnau, ac maent i raddau helaeth yn guddiedig. Ni all cymdeithas lle mae myfiaeth yn rhemp sefyll na ffynnu heb rwydwaith y gwerthoedd cudd: caredigrwydd, gofal, maddeuant.

Ni allwn ynysu ein hunain, nac esgusodi ein hunain, rhag yr ymdrech i greu 'cymdeithas' wâr a theg. Ond gwyddom hefyd, yr un pryd, yn nyfnder ein bod mai amherffaith fydd pob ymdrech i greu chwyldro daearol lle bydd cyfiawnder a heddwch yn teyrnasu mewn cyflawnder. Er i sawl proffwyd neu freuddwydiwr gwleidyddol ddamcaniaethu am ddulliau o greu cymdeithas decach, gwyddom o brofiad mai buan y try chwyldro rhyddid yn gaethiwed gormesol.

Ond mae gan y Cristion obaith: gobaith na chawn ein siomi ganddo ydyw, gobaith

sy'n ein symbylu i weithio. Addewid Duw yw sail ein gobaith. Gallu Duw yw ein cadernid wyneb yn wyneb â rhwystrau a siomedigaeth mewn byd ac eglwys. Credwn fod teyrnasiad grasol Duw am ddod ac am fod yn realiti yn ein byd. Dyhead ein calonnau yw gwireddu hyn. Dyna a weddiwn amdano'n ddyddiol pan weddiwn am gael gweld amcanion perffaith Duw yn cael eu cyflawni ar y ddaear fel yn y nef.

Gweledigaeth sy'n fwy na breuddwyd, sy'n fwy na gobeithion lwtopaidd, sydd ar ganol gweledigaeth Eseia.

Mae'n werth darllen yr adnodau'r eildro a sylwi ar addewid yr Arglwydd am fyd lle bydd pethau difaol yn peidio â bod (adn. 16b–17). Yn ôl yr ysgolhaig Beiblaidd Alec Motyer, cymdeithas ydyw sy'n ddiogel ac arhosol (adn. 21–2), sy'n gyforiog o fendithion (adn. 23), sy'n byw mewn perthynas agos â Duw (adn. 24) ac sy'n byw mewn harmoni perffaith oddi mewn i'r greadigaeth oll (adn. 25). Cyflawniad Gair Duw yw harddwch deniadol y weledigaeth. A gwahoddir ninnau i feddiannu'r weledigaeth ac i lawenhau ynddi (adn. 18).

Emyn 789: ‘Gwawr wedi hirnos’

Darllen – Luc 21:5–19: ‘Rhagfynegi’

Ni ellir gwadu nad oes elfennau esgatolegol cryf yn perthyn i'r ffydd Gristnogol. Mae'r gobaith hwnnw am gyflawniad bwriad Duw yn caniatáu i ni godi ein golygon uwchlaw heriau difaol y byd presennol, caled; mae'n ein llenwi â phosibiliadau newydd am fyd nad yw'n dibynnu ar allu pobl i'w gwireddu; mae'n ein hysbrydoli i weithio mewn gostyngeddrwydd hyderus a gobaith disgwylgar am gyflawniad yr addewid am ei ddyfodiad yr Iesu Grist.

Mwy anwadal, ac yn sicr mwy peryglus i fyd ac eglwys, yw mudiadau milflwyddol sy'n mynnu bod y 'milflwyddiant' esgatolegol ar fin cael ei sefydlu'n derfynol ar y ddaear. Wrth droi at y darlleniad presennol cafwyd rhai esboniadau oedd yn deall yr adnodau yn bennaf fel arwyddion llythrennol a fyddai'n arwain at ddyfodiad terfynol Teyrnas Dduw ar y ddaear ac yn paratoi ar ei gyfer.

Cyfeirio y mae'r adnodau'n benodol at gwmp Jerwsalem yn 70 OC. Ond, o'i gosod o fewn cyd-destun gweddill y bennod, clywir adleisiau esgatolegol cryf yn ieithwedd a disgwyliadau'r broffwydoliaeth. Nid yw'r dyfodol yn

perthyn i sefydliadau dynol na chrefyddol urddasol. Chwelir pob urddas daearol. Yn wir, 'ni bydd yr un heb ei fwrw i lawr' (adn. 6).

Felly, er bod Iesu'n cyfeirio'n uniongyrchol at y cyfnod a arweiniodd at ddinistr Jerwsalem yn 70 OC, mae'n glir bod Luc am i ni ddeall y byddai rhai nodweddion o'r amgylchiadau hanesyddol hynny'n nodweddu'r byd hyd ddiwedd amser (adn. 9b).

Nodweddir y cyfnod sy'n arwain at gwmp Jerwsalem yn benodol, a dyfodiad Mab y Dyn yn ehangach, gan ddyfodiad gau Feseiaid a fyddai'n cynnig esboniadau deniadol am gyflwr y byd, am ystyr ac arwyddocâd 'argoelion' tymhorol ac ysbrydol yr oes. Bydd hanes yn parhau i fod yn derfysgldd gydag anghydfod rhyngwladol, rhyfeloedd, daearyngynfâu a phlâu. Bydd rhai Cristnogion yn wynebu erledigaeth a charchar. Câi ei ddisgyblion 'oll o'm hachos i' eu bradychu gan eu hanwyliaid, eu herlid gan sefydliadau crefyddol (synagogau) a seciwlar.

Rhybudd Iesu i'w ddisgyblion ym mhob oes yw hyn: 'Gwylwch na chewch eich twyllo ... Peidiwch â mynd i'w canlyn ... peidiwch â chymryd eich dychrynu', a pheidiwch â chael eich synnu pan ddaw gwrthwynebiad 'o achos fy enw i'. Beth bynnag fyddai eu hamgylchiadau, 'hyn fydd eich cyfle i dystiolaethu' gyda doethineb a nerth anorchfygol Iesu ei hun. Ar waethaf pob perygl, bydd yr Arglwydd ei hun yn diogelu ei eglwys a 'thrywy eich dyfalbarhad meddiannwch fywyd i chwi eich hunain'.

Mewn byd mor gythryblus, rhodded yr Arglwydd i ni glustiau i glywed, i wrando ac i weithredu'n ffyddlon er ei fwyn.

Gwedd

O Arglwydd, craig ein hiachawdwriaeth, addolwn di. Mewn byd sy'n gythryblus, mewn oes lle mae cymdeithas a hanes yn llawn terfysg, addolwn di. Mewn byd lle caiff dy bobl eu herlid, mewn byd lle mae dy ganlyn di yn costio, dewiswn heddiw fod yn ffyddlon i ti. Dewiswn dy arddel; dewiswn beidio â chael ein llenwi ag ofn. Mae dy orsedd yn dragwyddol, dy frenhiniaeth yn ddiatal, dy ogoniant nefol yn parhau pan fydd temlau'r byd wedi chwalu, a sefydliadau crefyddol wedi eu dychwelyd i lwch y gorffennol. Arglwydd, addolwn di. Ymostyngwn ger dy fron. Ildiwn ein hunain i'th ddaioni, dy sancteiddrwydd a'th nerth. Arglwydd, addolwn di. Amen.

Emyn 731: ‘Gariad dwyfol uwch pob cariad’

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru